Lle y gallaf gael rhagor o wybodaeth am ansawdd dŵr yfed?

Os hoffech ragor o wybodaeth am ansawdd dŵr yfed gallwch ei gael oddi wrth:

Cofnod cyhoeddus eich cwmni dŵr

Gallwch weld y cofnod yn un o swyddfeydd y cwmni. Bydd staff y Pwyllgor Gwasanaethau yn esbonio canlyniadau'r profion ac yn dweud wrthych beth sy'n cael ei wneud i gywiro unrhyw fethiannau. Mae hawl gennych i gael copi rhad ac am ddim o'r cofnod ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw. Neu gallwch ysgrifennu at y cwmni am fanylion.

Eich awdurdod lleol

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr roi gwybodaeth i awdurdodau lleol am ansawdd y cyflenwad dŵr yn eu hardaloedd.

Ein Hadroddiadau Blynyddol

Mae'r rhain yn adroddiadau swmpus sy'n cynnwys llawer o wybodaeth fanwl am ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr. Gellir eu prynu o'r Llyfrfa. Efallai y bydd copi mewn prif lyfrgell neu yn swyddfeydd eich cwmni dŵr. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi taflen ddi-dâl bob blwyddyn yn rhoi canlyniadau monitro'r cwmni dŵr.

Taflenni di-dâl am

- Beth yr ydym yn ei wneud?
- Pa môr Dda yw'r Dŵr Yfed?
- Clorin, Arogl a Blas
- Dŵr â lliw arno
- Dŵr Caled
- Plwm mewm Dŵr Yfed
- Defnyddio sodr di-blwm ar gyfer ffitiadau dŵr yfed
- Cyflenwadau Dŵr Preifat
- Problemau gyda'ch Dŵr Yfed
- Adroddiadau Cryno'r ADY ar bob cwmni dŵr

ar gael oddi wrthym ni

dwi

Arolygiaeth Dŵr Yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed
Llawr 2/A1, Ashdown House
123 Victoria Street
Llundain SW1E 6DE

Ffôn: 020 7944 5956

Ffacs: 020 7944 5969

E-bost: dwi.enquiries@defra.gov.uk

Neu ar y rhyngrwyd ar
http://www.dwi.defra.gov.uk

Cyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
Argraffwyd yn y DU Awst 2001 ar bapur yn cynnwys 75% o ddeunydd ailgylchu a 25% o fwydion (01EP0463W).
Cod Cynnyrch: PB5761W
Product Code: PB5761W

© Hawlfraint y goron Awst 2001

Defnyddio sodr di-blwm ar gyfer ffitiadau dŵr yfed

Sut i osgoi peryglon i iechyd o lygredd dŵr oherwydd sodr plwm

dwi

gwarchodwyr ansawdd dŵr yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwy ddylai ddarllen y daflen hon?

Os ydych yn adnewyddu eich cartref neu os ydych yn blymwr proffesiynol neu'n blymwr DIY, yn adeiladwr neu yn ddatblygwr eiddo, mae'r daflen hon yn dweud wrthych am yr hyn yr ydych angen ei wybod yngln ag osgoi peryglon iechyd a chydymffurfio â'r gyfraith ar sodr plwm.

Peryglon oddi wrth blwm

Mae plwm i'w gael yn yr amgylchedd. Mae'n dod o amrywiol ffynonellau yn cynnwys rhai pibellau ecsost cerbydau a hen waith paent. Gall fod yn bresennol yn yr aer, bwyd, pridd neu ddŵr. Gall plwm grynhoi yn y corff a gall fod yn niweidiol. Mae'n synhwyrol osgoi peidio cael gormod o unrhyw ffynhonnell.

Mae gan rai tai hŷn bibellau dŵr plwm. Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (ADY) wedi cyhoeddi taflen ddi-dâl o'r enw 'A Oes Gennych Bibellau Plwm?' Mae manylion cyswllt ADY ar gefn y daflen hon.

Ond mae ffynonellau posibl arall o blwm mewn dŵr. Os yw rhywun sydd yn gosod ffitiadau dŵr yfed yn defnyddio sodr plwm yna gall lefel y plwm yn y dŵr fod yn niweidiol i iechyd mewn rhai ardaloedd cyflenwi dŵr. Hefyd mae'r fflwcs a ddefnyddir i gynorthwyo llif y sodr i'r uniadau yn gallu llygru'r dŵr gyda phlwm a chopr os yw'n cael ei adael yn y pibellau. Mae hyn yn arbennig o wir am y math hunan-lanhau o fflwcs.

Mae'r perygl potensial i iechyd oherwydd plwm yn golygu ei bod yn hanfodol codi ymwybyddiaeth o'r angen i gwrdd â safonau uchel wrth sodro uniadau. Dylai'r gosodwyr ddilyn y cyngor manwl ar wneud uniadau sodro yng nghyhoeddiadau 33 ac 88. Cymdeithas Datblygu Copr. Gallwch gael copïau trwy gysylltu â CDA ar 01727 731200 neu ar ei wefan ar www.cda.org.uk

Beth y mae'r Rheoliadau Ffitiadau Cyflenwi Dŵr yn ei ddweud am sodrau plwm

- **Mae'n anghyfreithlon defnyddio sodr plwm wrth osod ffitiadau i'w defnyddio gyda dŵr ar gyfer yfed, ymolchi neu baratoi bwyd. Mae is-ddeddfau cyflenwi dŵr ac yn fwy diweddar Rheoliadau (Ffitiadau Dŵr) Cyflenwad Dŵr 1999 wedi gwahardd y defnydd o sodr plwm trwy Gymru a Lloegr am dros 15 mlynedd.**

- **Er hynny, gellir defnyddio sodr plwm yn ddiogel ar gyfer rhywfaint o waith plymio lle nad yw'r dŵr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yfed na choginio, er enghraifft mewn cylched agos systemau gwresogi.**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i osodwyr a defnyddwyr systemau dŵr gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, yn cynnwys y gofynion am sodr plwm. Rhaid i gyflenwyr dŵr sicrhau fod y Rheoliadau'n cael eu diwallu. Gwnânt hyn trwy archwilio systemau plymio mewn sampl o eiddo newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli.

Dylai perchnogion eiddo, adeiladwyr a datblygwyr fynnu bod plymwyr yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau ac yn defnyddio'r deunyddiau cywir. Os na wnânt hynny maent mewn perygl o wynebu llys a derbyn dirwy.

- **defnyddiwch sodr di-blwm yn unig mewn gosodiadau dŵr yfed**
- **chwiliwch am 'di-blwm' ar labeli sodr**

Cyngor ar ddefnyddio plymwr

Dewiswch blymwr sydd yn deall y rheoliadau

Defnyddiwch blymwr neu gontractwr sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Rheoliadau (Ffitiadau Dŵr) Cyflenwad Dŵr. Bydd plymwr cymeradwy yn darparu tystysgrif bod y gwaith ar eich gosodiad dŵr yn diwallu'r holl ofynion rheolyddol - yn cynnwys y defnydd o sodr di-blwm yn unig.

Er mwyn cael gafael ar blymwr cymeradwy cysylltwch â:

- eich cwmni dŵr lleol; neu
- Sefydliad Plymio ar 01708 472791 neu ar ei wefan ar www.plumbers.co.uk

A oes gan eich plymwr daflen wybodaeth ar sodro?

Gwnewch yn sir fod eich plymwr wedi darllen taflen y Bwrdd Copr DU ar sodro cywir, ac mae ar gael o'u gwefan ar www.ukcopperboard.co.uk

Gwirio eich gosodiadau cyflenwi dŵr

Os ydych yn amau fod sodr plwm wedi ei ddefnyddio ar eich gosodiad diweddar gallwch ofyn i blymwr cymeradwy wneud profion. Dylech gysylltu â'ch cwmni dŵr fydd yn gallu dadansoddi'r dŵr a'ch cynghori ar beth i'w wneud os byddant yn canfod sodr plwm.

Mae'r Cynllun Ymgynghorol Rheoliadau Dŵr (WRAS) sydd yn gweithio ar ran pob cyflenwr dŵr hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth. Gweler yr adran 'gwybodaeth bellach' isod am fanylion cyswllt.

Cyngor cyffredinol

Mewn cartrefi newydd neu lle mae'r gwaith plymio wedi ei foderneiddio mae uniadau newydd eu sodro yn sicr o fod yn bresennol. Dylai'r plymwr glirio'r system yn drwyadl i gael gwared o unrhyw weddillion gosod - er na fydd clirio bob amser yn cael gwared o'r holl fflwcs.

Ni ddylid gadael i ddŵr sefyll am amser hir rhwng gosod system blymio a'r adeg y caiff ei defnyddio gyntaf. Dylid draenio'r system yn llwyr ac yna ei chlirio neu byddai'n well i rywun redeg y dŵr yn aml i'w newid o fewn y system, tra'i bod yn newydd.

Dylech glirio yn rheolaidd yn ystod y mis cyntaf o wasanaeth er mwyn golchi ymaith unrhyw ddarnau metal sydd wedi'u codi o'r pibellau a'r uniadau a lleihau unrhyw broblemau sy'n deillio o ormod o fflwcs.

Cynghorir chi hefyd i glirio'r system blymio bob tro y byddwch yn ei defnyddio cyn tynnu dŵr o'r tap ar gyfer yfed a pharatoi bwyd.



Cyngor i blymwyr DIY sydd yn gosod ffitiadau cyflenwi dŵr

Prynwch y sodr cywir

Dylai'r label ddweud bod y sodr yn 'ddi-blwm'. Os nad ydych yn sir, gofynnwch i'r cynorthwy-ydd yn y siop am gyngor. Gallwch gael offer creu uniadau di-blwm fel cylch sodr un darn sydd wedi'i warantu i ddefnyddio sodr di-blwm. Gallwch hefyd ddefnyddio gosodiadau gwthio-ffitio a phwyso-ffitio nad oes angen gwres ar eu cyfer.

Rhai cynghorion sodro sylfaenol

Mae sodro uniadau yn golygu glanhau, fflwcsio ac adeiladu, gwresogi a thacluso. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r holl gamau ymarferol sylfaenol i sicrhau gosodiad diogel. Gallwch gael rhagor o gyngor gan y Bwrdd Copr DU ar www.ukcopperboard.co.uk

Defnyddiwch y lleiafswm angenrheidiol o sodr a fflwcs i wneud y gwaith. Yn gyffredinol dim ond i'r bibell y dylech osod y fflwcs. Unwaith y byddwch wedi gorffen sodro, golchwch y pibellau'n dda i gael gwared o'r fflwcs, darnau copr ac unrhyw weddillion eraill.

Peryglon oddi wrth gormod o fflwcs - llygredd copr

Gall gormod o fflwcs wneud i lefelau copr fynd dros y safon o dair miligram y litr a nodir gan Reoliadau (Ansawdd Dŵr) Cyflenwad Dŵr 1989. Mae Rheoliadau (Ansawdd Dŵr) Cyflenwad Dŵr 2000 yn gosod safon mwy llym o ddwy miligram y litr. Daw'r rheoliadau hyn i rym yn 2003. Yn ogystal â hynny mae rheoliadau 2000 yn dosbarthu copr fel metal gwenwynig.

Lle mae crynodiadau copr yn parhau y uwch na thair miligram y litr a lle nad yw dŵr y prif bibellau dŵr yn rhy ymosodol tuag at gopr, mae'n bosibl y bydd rhaid i chi adnewyddu'r pibellau neu uniadau wedi'u sodro er mwyn cydymffurfio gyda'r safon ar gyfer copr.

Cyngor pellach

- Gall y Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr eich cynghori ar y Rheoliadau (Ffitiadau Dŵr) Cyflenwi Dŵr ar ran holl gyflenwyr dŵr yn y DU. Cysylltwch â WRAS ar 01495 248454 neu drwy e-bost ar info@wras.co.uk neu trwy'r wefan ar www.wras.co.uk. Mae gan WRAS Ddull Gosod Cymeradwy y Diwydiant Cyflenwi Dŵr (AIM) sydd yn rhoi canllaw'r diwydiant dŵr, o'r enw 'Solders and Fluxes'.
- Am ragor o wybodaeth ar ansawdd cyffredinol dŵr a phlwm, cysylltwch â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.